BWRDD DIOGELU

OEDOLION GOGLEDD

CYMRU

NEGESEUON ALLWEDDOL

O'r cyfarfod a gynhaliwyd

Ddydd Iau, 2 Mai 2019

- Astudiaethau Achos Arfer Gorau: Cyflwynwyd tair astudiaeth achos gan Asiantaethau Partner yn amlygu arferion da a thystiolaeth o gydweithio aml-asiantaeth cydlynol. Mae BDGC wedi gwneud sylw yn flaenorol y dylai arferion da gael eu harddangos - mae esiamplau wedi cael eu casglu drwy'r Grwpiau Cyflawni Ymarfer a'r nod yw rhoi astudiaethau achos gan holl bartneriaid ar raglen y Bwrdd yn rheolaidd. Byddwn hefyd yn defnyddio esiamplau yn Adroddiad Blynyddol y Byrddau.

- Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir: Mae'r Grŵp Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu wedi bod yn canolbwyntio ar Ddadansoddi Anghenion Hyfforddi gan gynnwys holl sectorau ac asiantaethau, ac amlygodd canfyddiadau dechreuol o amgylch y Dadansoddiad fod gwahaniaethau o ran mynediad i Hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, gofal cartref a phreswyl.

- Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol yn cael eu lansio ar 11 Tachwedd 2019. Mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru, mae BDGC ar hyn o bryd yn cyflawni archwiliad o anghenion hyfforddi, er mwyn canfod sawl ymarferydd aml-asiantaeth sydd angen mynediad at hyfforddiant uniongyrchol wyneb yn wyneb o fewn pedwar mis cyntaf lansio'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol.

- Gwaith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus – Rhoddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd ar ganlyniadau arolwg ymwybyddiaeth Trefniadaeth y Swyddfa – y sector iechyd a chymdeithasol. Rhoddwyd cefndir ar waith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a thrafodwyd canlyniadau'r arolwg. Roedd y themâu cyffredinol yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn meddwl y buasai mwy o hyfforddiant yn ddefnyddiol - yn arbennig wyneb yn wyneb neu e-ddysgu.

- Cyflwynwyd trosolwg i'r Bwrdd am y Bil Galluedd Meddyliol (Diwygiad) a gafodd ei gymeradwyo gan Senedd y DU ar 24 Ebrill 2019, sy'n golygu y bydd yn dod yn gyfraith cyn bo hir, ar ôl iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol.